# Pwyllgor Senedd y Dyfodol

## Crynodeb o’r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2025

1. Cynhaliodd Pwyllgor Senedd y Dyfodol (“y Pwyllgor”) weithdy i nodi cryfderau a gwendidau’r tri opsiwn posibl ar gyfer trefnu busnes seneddol y Seithfed Senedd.

2. Bydd yr allbwn o’r ymarfer hwn yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad terfynol y Pwyllgor.

3. Nododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Fforwm y Cadeiryddion, a’r Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni.